# MYSTERIOUS AFAN CUDD
# YR YSGRIFENNYDD

Yn yr Oesoedd Canol roedd pob llyfr yn cael ei wneud â llaw. Ni ddyfeisiwyd y gwasg argraffu cyntaf tan 1440 yn yr Almaen.

Fel arfer, mynachod oedd **ysgrifenyddion** yr oesoedd canol. Roeddent yn ysfrifennu ac yn copïo llawysgrifau.

Roedd mynachod, a hyfforddwyd yn arbennig, yn torri dalennau o femrwn yn ofalus, yn cynhyrchu felwm, yn gwneud yr inc, yn ysgrifennu'r testunau, yn rhwymo'r tudalennau ac yn creu cloriau'r llyfrau.

Roedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyn yn cael eu gwneud mewn *scriptorium*, ystafell a gadwyd yn dawel fel arfer fel bod modd i'r ysgrifenyddion ganolbwyntio'n well. Byddai sgriptoria mawr yn gallu bod yn weithle i hyd at 40 ysgrifennydd.



From *Li livres dou santé* by Aldobrandino of Siena . British Library manuscript Sloane 2435, f. 44v.
Public Domain, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=637611




Miniature of Vincent of Beauvais writing in a manuscript of the *Speculum Historiale* in French, Bruges, c. 1478–1480, British Library Royal 14 E. i, vol. 1, f. 3.

Yn aml byddai ysgrifennwyr yn tynnu lluniau prydferth yn eu llyfrau, a gelwir goliwiadau neu addurniadau.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Ar ddiwedd yr Oesoedd Canol roedd mynachod Abaty Margam yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad diwylliant Cymreig. Cafodd y llyfr Lladin, *Annales de Margan*, ei ysgrifennu yma. Roedd y llyfr hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig am hanes Morgannwg, ynghyd â dogfennau eraill.



Artist anhysbys Eadwine the scribe at work Psalter Christchurch Canterbury C1160-70. wikipedia/commons

Sefydlwyd Abaty Margam yn 1147 gan yr arglwydd Normanaidd, Robert o Gaerloyw. Roedd y mynachod Sistersiaidd yn ei sgriptoriwm yn gweithio ar ran yr Abaty, ac hefyd yn cynhyrchu dogfennau ar gyfer Iarllaeth Caerloyw.

Byddai ysgrifenyddion yr Oesoedd Canol yn deffro am 3.00yb ar gyfer y gwasanaeth cyn yr wawr, ac yn gweithio rhwng y gwasanaethau a'r prydau bwyd, lle y byddant yn clywed darlleniadau o'r beibl, tan iddi nosi. Prif nod eu gwaith oedd hyrwyddo syniadau yr Eglwys Gristnogol.

Mae hen gerdd Wyddelig yn galarnadu dros fywyd caled yr ysgrifennydd; mae'n cael ei chanu'n deimladwy ar y CD 'Songs of the Scribe'.

https://www.irishsong.com/music/songs-of-the-scribe/



Ffotograff gan Wyrdight.com, CC BY-SA 4.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=38774972

Addaswyd y testun o:
The Scriptorium of Margam Abbey and the Scribes of Early Angevin Glamorgan
Secretarial Administration in a Welsh Marcher Barony, c.1150-c.1225 by Robert B Patterson